



Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2020 – 2024

Strategic Equality Plan



monmouthshire
sir fynwy

Rheoli Fersiynau

Teitl	Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 24
Diben	Er mwyn bodloni gofyniad cyfreithiol y Ddeddf Cydraddoldeb 2010
Perchennog	Swyddog Cydraddoldebau a'r Gymraeg
Cymeradwywyd gan	Council
Dyddiad	5 ^{ed} Mawrth 2020
Rhif y Fersiwn	1
Statws	Drafft
Amllder Adolygu	Blynyddol
Dyddiad yr adolygiad nesaf	11fed Fai 2021
Ymgynghoriad	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent; Grŵp Cynhwysiant Sir Fynwy; Fforwm Mynediad i Bawb; Fforwm 50+, Grŵp Cydraddoldeb De Cymru; Panel Dinasyddion Rhanbarthol Gwent, Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf, Arolwg Gwefan, Facebook, Twitter.

Cynnwys

Rheoli Fersiynau	1
Cynnwys	2
Cyflwyniad a'r Rhagair	4
Ein Sylfaen: Diben a Gwerthoedd	5
Cyd-destun Polisi Cenedlaethol	8
Tystiolaeth o Anghydraddoldeb	14
Amcanion Cydraddoldeb Strategol.....	16

Fformatau Amgen

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyngor:

www.monmouthshire.gov.uk

Mae hefyd ar gael ar gais mewn copi caled, print bras, Braille, fersiwn sain, fformat Word ar gyfer darllenwyr sgrin ac ati. Cysylltwch â ni:

Trwy'r post: Swyddog Polisi (Cydraddoldebau a'r Gymraeg)
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
Sir Fynwy
NP15 1GA

Rhif Ffôn: 01633 644010

Ebost: alanburkitt@monmouthshire.gov.uk

Cyflwyniad a'r Rhagair

Croeso i Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd Cyngor Sir Fynwy. Mae cyhoeddi amcanion cydraddoldeb strategol yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ond nid dyna'r peth sy'n ein hysgogi. Credwn mewn rhoi cyfiawnder cymdeithasol wrth wraidd popeth a wnawn ac rydym wedi ymrwymo i gymdeithas deg a chyfartal.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn sefydliad sy'n seiliedig ar werthoedd gyda diben clir i adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu cyfnod heriol, gallwn ond helpu pobl a chymunedau i gyflawni eu potensial os byddwn yn gweithio gyda phawb, gan fanteisio ar yr amrywiaeth o arbenigedd, profiad ac egni sydd gan Sir Fynwy.

Mae'r cynllun yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y cynlluniau cydraddoldeb strategol blaenorol ac ers i'r cynllun diwethaf gael ei gyhoeddi mae'r Cyngor wedi:

- Dangos ymrwymiad clir i gyfiawnder cymdeithasol drwy greu portffolio newydd o'r Cabinet i arwain ar hyn. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am Gydraddoldeb a byddwch yn gweld synergeddau clir rhwng y cynllun hwn a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a luniwyd gennym yn 2016.
- Casglu tystiolaeth helaeth drwy'r Asesiad Lles a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. O ganlyniad, mae'r cynllun hwn wedi'i seilio ar sylfaen dystiolaeth gref a dynnwyd o ddata, polisi ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Defnyddio adroddiad "A yw Cymru'n Decach 2018" gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i dynnu sylw at lawer o faterion sy'n berthnasol i Sir Fynwy ac sy'n cael sylw yn y cynllun hwn.
- Cynnwys tlogi fel rhan o'r asesiadau effaith a gynhelir ar holl benderfyniadau polisi'r Cyngor – o flaen y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd.
- Datblygu asesiadau effaith cronus o'n proses gyllidebol flynyddol gan edrych ar effaith gyfunol penderfyniadau cyllidebol ar wahanol aelwydydd.

Sir Fynwy yw'r awdurdod lleol â'r cyllid a ariennir isaf yng Nghymru, sy'n golygu bod yn rhaid i ni feddwl yn wahanol a gwneud penderfyniadau anodd. Mae'n allweddol i wneud hynny heb effeithio'n andwyol ar y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas neu'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r cynllun hwn, ynghyd â'n Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol, yn dangos ein hymrwymiad calonnog a diamwys i degwch a chydraddoldeb i bobl a chymunedau Sir Fynwy.



Cynghorydd Sara Jones
Aelod Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol
a Datblygu Cymunedol

Ein Sylfaen: Diben a Gwerthoedd

Ein Pwrpas::

Rydym am helpu i adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn sy'n cefnogi lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r diben hwn wrth wraidd popeth a wnawn i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Fynwy ac rydym yn rhannu hyn â'n partneriaid gwasanaeth cyhoeddus fel rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Byddwn yn ystyried datblygu cynaliadwy yn y modd y byddwn yn cynllunio ac yn cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn.

Ein Gwerthoedd

Dim ond drwy'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yma, y rhai ar ein cyflogres ni a'r rheini yng nghymunedau Sir Fynwy y gallwn gyflawni pethau mawr, gan gynnwys yr holl wirfoddolwyr a'r grwpiau sy'n cyfoethogi a bywiogi'r lle hwn. Mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu pwy ydym ni, sut rydym yn gwneud pethau a sut rydym yn llunio'r dyfodol. Ceisiwn ein gorau i gymhwyso'r rhain ym mhopeth a wnawn.

Bod yn Agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud wrthym beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd amser i gael yr ateb byddwn yn egluro pam; os na allwn ateb ar unwaith, byddwn yn ceisio eich cysylltu â'r bobl sy'n gallu helpu – mae meithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Rydym yn darparu cyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn helpu i egluro pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn bob amser sicrhau bod pawb yn hapus, ond byddwn yn ymrwmo i wrando ac egluro pam y gwnaethom yr hyn a wnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg er mwyn gallu darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i gofleidio ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel y 'atgyweiriwyr' neu ddatrys-wyr problemau, ond byddwn yn trosoli'r holl syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.

Ein Cynllun Corfforaethol

Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Fynwy yn nodi'r pethau y byddwn yn gweithio arnynt yn y tymor canolig. Mae'r cynllun yn nodi ein pum Nod Sefydliadol (a hefyd ein hamcanion llesiant) a gefnogir gan y 22 ymrwymiad i weithredu hyd at 2022. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyd-fynd â'r cyfeiriad a bennwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Ategir y Cynllun gan fframwaith polisi clir sy'n nodi ein gwaith yn fanylach er mwyn gallu cyflawni'r cynllun (gweler yr atodiad). Rydym yn llunio ein gweithgarwch yn y cynllun corfforaethol yn unol â nodau ac uchelgeisiau ein partneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Fynwy. Mae'n werth nodi y bydd y Cynllun Corfforaethol yn destun adolygiad canol tymor. Y dyheadau a'r amcanion a bennwyd ar gyfer Sir Fynwy gan y BGC a'r Cyngor yw:

Pwrpas: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Gwydn	
<i>Amcanion Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</i>	<i>Cyngor Sir Fynwy Nodau ac Amcanion Llesiant</i>
Rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc	Y dechrau gorau posibl mewn bywyd
Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig	Llesiant gydol oes
Diogelu a gwella gwydnwch ein hamgylchedd naturiol wrth ei liniaru a'i addasu oherwydd effaith newid yn yr hinsawdd	Manteisio i'r eithaf ar botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n economaidd ffyniannus ac wedi'i chysylltu'n dda.	Sir ffyniannus a chysylltiedig
	Cyngor sy'n canolbwyntio ar y dyfodol

Ein Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol

Mae Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol y Cyngor yn dangos ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella canlyniadau i bobl a chymunedau'r Sir. Fe'i llywiwyd gan awydd y Cyngor i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a amlygir yn yr asesiadau o anghenion llesiant a'r boblogaeth a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn dilyn pasio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae gan y strategaeth dri amcan:

- Rhoi'r Cychwyn Gorau Mewn Bywyd i Blant, er mwyn Goresgyn Rhwystrau Cyrhaeddiad a Chyfle.
- Goresgyn anghydraddoldeb o ran Mynediad at Ffyniant Economaidd
- Mynd i'r Afael â Phla Unigrwydd ac Arwahanrwydd

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyd-fynd â'r strategaeth hon, gan roi mwy o fanylion am rai o'r gweithgareddau y byddwn yn eu darparu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y sir.

Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

Deddf Cydraddoldeb 2010

Daeth Deddf 2010 i rym ar 6^{ed} Ebrill 2011, gan ddisodli 116 o wahanol ddarnau o'r gyfraith yn ymwneud â chydraddoldeb, a'u rhoi ynghyd mewn un darn o ddeddfwriaeth. Mae'n cryfhau'r gyfraith mewn ffyrdd pwysig, ac mewn rhai ffyrdd yn ymestyn y gyfraith cydraddoldeb presennol i helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb.

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel corff cyhoeddus yng Nghymru, fodloni dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

Y **dyletswyddau cyffredinol** yw bod yn rhaid i'r Cyngor, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r canlynol:

- diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt;
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r ddeddf yn egluro bod rhoi sylw dyladwy i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys y canlynol:

- cael gwared ar neu leihau anfanteision mae pobl yn profi oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig.
- cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.
- annog pobl gyda nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill ble mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi nifer o **Ddyletswyddau Penodol** sy'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â hwy:

- cyhoeddi digon o wybodaeth i ddangos ei bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol ar draws ei swyddogaethau
- paratoi a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a manylu ar yr ymgysylltu a wnaed wrth eu datblygu.
- cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- nodi sut y caiff cynnydd ei fesur

Y Dyletswyddau Penodol fel y'i cymhwyswyd yng Nghymru Pwrpas cyffredinol y dyletswyddau penodol yw helpu cyrff cyhoeddus, fel y Cyngor hwn, wrth iddynt weithredu'n unol â'r ddyletswydd gyffredinol, ac i gefnogi tryloywder. Yng Nghymru, mae'r dyletswyddau penodol wedi'u pennu gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Dyma'r dyletswyddau penodol:

- Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Aseidiadau Effaith
- Gwybodaeth gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau tâl a hyfforddiant staff
- Caffael
- Adrodd a Chyhoeddi

Y Nodweddion Gwarchoddedig

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cwmpasu'r un bobl a gwmpaswyd gan ddeddfwriaeth flaenorol, ond mae'n cryfhau ac yn ei chydgrynhoi mewn i un Ddeddf. Mae'n cyflwyno 'nodweddion gwarchoddedig' sy'n disodli'r ymadrodd 'meysydd cydraddoldeb'.

Y nodweddion gwarchoddedig – fel y'u diffinnir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw:

Oed - Person sy'n perthyn i oedran penodol (er enghraifft 32 oed) neu ystod o oedrannau (er enghraifft pobl ifanc 18 i 30 oed).

Rhyw - Dyn neu fenyw.

Ailbennu Rhywedd - Y broses o drosglwyddo o un rhyw i'r llall.

Anabledd - Mae gan unigolyn anabledd os oes ganddynt nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r person hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Beichiogrwydd a Mamolaeth - Beichiogrwydd yw'r cyflwr o fod yn feichiog neu'n disgwyl baban. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl yr enedigaeth, ac mae'n gysylltiedig â chyfnod mamolaeth yng nghyd-destun cyflogaeth. Yn y cyd-destun tu fas i'r gwaith, mae'n rhoi amddiffyniad yn erbyn gwahaniaethu am 26 wythnos ar ôl yr enedigaeth, ac mae hyn yn cynnwys trin menyw yn anffafriol oherwydd ei bod yn bwydo ar y fron.

Cyfeiriadedd Rhywiol - Dyma yw atyniad rhywiol rhywun tuag at ei ryw ei hunain, y rhyw arall neu'r ddau ryw.

Hil - Mae hyn yn cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu hil, lliw croen, cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), tarddiad ethnig neu genedlaethol.

Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg cred) - Mae gan grefydd yr ystyr a roddir iddo fel arfer ond mae cred yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol gan gynnwys diffyg cred

(megis anffyddiaeth). Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau bywyd neu'r ffordd rydych chi'n byw iddo gael ei gynnwys yn y diffiniad.

Priodas a Phartneriaeth Sifil - Diffinnir priodas fel 'undeb rhwng dyn a menyw'. Gall cyplau o'r un rhyw hefyd gydnabod eu perthnasoedd yn gyfreithiol fel 'partneriaethau sifil'. Rhaid trin partneriaid sifil yr un fath â chyplau priod ar amrywiaeth eang o faterion cyfreithiol. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gymwys i'r nodwedd hon, ond dim ond o ran y gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol





Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi ddyletswydd o 'sylw dyledus' ar gyrff cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod hyrwyddo cyfle cyfartal yn ystyriaeth allweddol wrth gyflawni eu swyddogaethau. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn segur yn y llyfr statud. Mae'r Cyngor Sir wedi cyflwyno *Tlodi* fel nodwedd ychwanegol yn yr asesiadau effaith a gynhelir ar benderfyniadau polisi allweddol. Dylai hyn sicrhau ffocws ar yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.


Ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn, roedd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru. Caiff ein dull o gyflawni'r ddyletswydd hon ei lywio gan ddatblygiadau ar lefel genedlaethol a bydd yn adeiladu ar waith sydd eisoes ar y gweill drwy ein hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal asesiad datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n ceisio sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu 7 nod llesiant y mae angen i ni sicrhau bod ein gweithgarwch yn cyfrannu atynt.

Mae'r tabl isod yn esbonio sut yr ydym wedi gweithredu'r egwyddorion datblygu cynaliadwy o dan y ddeddf wrth ddatblygu'r strategaeth.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Sut mae'r egwyddorion hyn wedi gyrru datblygiad y polisi
 <p data-bbox="118 465 204 488">Long Term</p> <p data-bbox="240 331 507 533">Cydbwysu angen byrdymor â hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol</p>	<p data-bbox="552 306 1382 555">Mae'r amserlen hon ar gyfer y cynllun hwn yn un tymor canolig ac mae'n nodi amcanion sy'n ehangach ac sydd â phersbectif llawer mwy hirdymor wedi'i ategu gan weithgarwch byrdymor. Mae'r amcanion wedi'u llywio gan ystod o dystiolaeth er mwyn nodi'r meysydd y mae angen i ni eu datblygu o ran cydraddoldeb yn Sir Fynwy.</p>
 <p data-bbox="105 869 209 891">Collaboration</p> <p data-bbox="240 734 507 853">Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni amcanion</p>	<p data-bbox="552 591 1382 1003">Mae amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth allweddol wedi'u defnyddio i lywio'r cynllun hwn, gan gynnwys asesiad lles y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, cyhoeddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - "A yw Cymru'n Decach" 2018 a'r Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol. Mae'r cynllun hwn yn gweithredu fel ymateb y cyngor i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud yn benodol â chydaddoldeb yn Sir Fynwy, a bydd llawer o'r camau gweithredu unigol yn cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid.</p>
 <p data-bbox="113 1317 204 1339">Involvement</p> <p data-bbox="240 1189 520 1301">Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn</p>	<p data-bbox="552 1039 1382 1451">Datblygwyd y cynllun ar sail tystiolaeth helaeth a oedd yn cynnwys amrywiaeth o safbwyntiau er enghraifft symposiwm Cydraddoldeb ar gyfer swyddogion y Cyngor a thystiolaeth o'r gwaith ymgysylltu â'r gymuned yn Sir Fynwy o'r blaen a lywiodd yr asesiad llesiant. Bydd y cynllun yn destun ymgynghoriad ffurfiol ym mis Ionawr 2020, a bydd hyn yn cynnwys drwy wefan y Cyngor, dosbarthu e-bost wedi'i dargedu at bob rhanddeiliad a'i roi ar gyfrifon Facebook a Twitter y Cyngor. Yn ogystal ag ymgynghori'n benodol â sefydliadau/grwpiau.</p>
 <p data-bbox="121 1637 204 1659">Prevention</p> <p data-bbox="240 1487 472 1697">Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu</p>	<p data-bbox="552 1487 1366 1653">Nod pob un o'r amcanion yw gweithredu nawr er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu yn y dyfodol. Er enghraifft, rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant gan oresgyn rhwystrau i gyrhaeddiad a chyfleoedd.</p>

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Sut mae'r egwyddorion hyn wedi gyrru datblygiad y polisi
 <p data-bbox="240 501 512 658">Ystyried effaith ar bob nod llesiant ar y cyd ac ar gyrff eraill</p>	<p data-bbox="552 311 1382 853">Mae llawer o'r amcanion wedi'u hintegreiddio â'i gilydd ac mae amcanion ar gyfer y Sir wedi'u gosod mewn cynlluniau strategol eraill, er enghraifft cynllun llesiant y BGC a'r strategaeth cyfiawnder cymdeithasol. Mae'r amcanion yn cyfrannu at amrywiaeth o'r nodau llesiant cenedlaethol, yn arbennig y nod o greu "Cymru sy'n fwy cyfartal". Nodwyd yr effaith y bydd pob amcan yn ei chael ar nodweddion gwarchoddedig penodol. Mae'r broses o ddatblygu'r amcanion wedi ystyried hyn ac mae'n bwysig, wrth i gamau gweithredu unigol gael eu datblygu, ein bod yn deall sut y maent yn integreiddio â chynlluniau eraill. Bydd y Cyngor yn cydweithio â phartneriaid eraill i helpu i gyflawni sawl agwedd ar yr amcanion.</p>

Gwnaethom benderfyniad i gyfuno Aseiad Cenedlaethau'r Dyfodol â'n Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb presennol er mwyn darparu un aseiad cynhwysfawr o'n penderfyniadau ar genedlaethau'r dyfodol a'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Cysylltiadau â strategaethau a deddfwriaeth eraill

Nid yw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gynllun annibynnol ac mae ganddo gysylltiadau agos â nifer o strategaethau, cynlluniau, polisiau, fframweithiau a deddfwriaeth allweddol y Cyngor, partneriaethau a Chymru gyfan. Mae rhai o'r rhain yn canolbwyntio'n benodol ar gydraddoldeb ac mae eraill wedi cynnwys cydraddoldeb fel un o'r themâu allweddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Pobl, Lle, Ffyniant, Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol 2017-2022
- Cynllun Corfforaethol 2017-22
- Cynllun Datblygu Lleol
- Cynllun Gweithredu Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Sir Fynwy
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Mwy na Geiriau Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru
- Cymraeg 2050 (1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050)

Tystiolaeth o Anghydraddoldeb

Yn aml, ystyrir bod Sir Fynwy yn ddeiliog ac yn gefnog ac mewn llawer o ffyrdd mae hynny'n wir. Fodd bynnag, mae rhai o'r gwahaniaethau o fewn a rhwng cymunedau yn llwm, yn enwedig pan maent yn bodoli ochr yn ochr â'i gilydd.

- Mae canlyniadau arholiadau'n amrywio'n fawr rhwng pobl o gefndiroedd cymdeithasol gwahanol sy'n mynychu'r un ysgolion.
- Mae llawer o enillwyr cyflog uchel yn byw yn ein Sir ond mae cyflogau sydd ar gael yn lleol yn is na rhannau eraill o Gymru.
- Mae llawer o bobl yn dioddef tloedi mewn gwaith ac mae gwahaniaeth nodedig mewn cyflogau rhwng dynion a menywod.
- Mae llawer o'n dinasyddion yn heneiddio, yn dioddef afiechyd ac mewn perygl o fod yn unig ac ynysig.
- Mae costau byw yn ein sir wledig a chael mynediad at wasanaethau sylfaenol iawn, fel trafnidiaeth a darpariaeth iechyd, yn fwy na'r costau i bobl sy'n byw mewn cytreffi.

Mae llawer o ffynonellau tystiolaeth presennol a gynhyrchwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi'u defnyddio i lywio datblygiad y cynllun hwn.

- **Yr Asesiad Llesiant** (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
- **Asesiad Anghenion y Boblogaeth** (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant). Tynnodd y ddau sylw at y cryfderau a'r cyfleoedd yn ein cymunedau a defnyddio sylfaen dystiolaeth helaeth i dynnu sylw at rai o'r heriau y bydd unigolion a chymunedau yn eu hwynebu yn y dyfodol.
- **"A yw Cymru'n Decach 2018"** – dogfen a baratowyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n amlygu'r meysydd y maent yn awgrymu y dylai cynghorau yng Nghymru fynd i'r afael â nhw.

Wedi'u llywio gan y rhain, cynhaliwyd Symposiwm Cydraddoldeb ar gyfer swyddogion Cyngor ar 29^{ain} Tachwedd 2019, lle nododd swyddogion y cyngor o bob gwasanaeth themâu gan ddechrau nodi amcanion strategol allweddol ar gyfer Sir Fynwy.

Gwyddom fod y materion a amlygir yn y dogfennau uchod yn symptomau o broblemau cymhleth ac rydym hefyd yn gwybod na ellir eu datrys gan un sefydliad yn unig. Rhaid i'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector weithio gyda'i gilydd. Ac, yn bwysicaf oll, rhaid i ni gefnogi pobl a chymunedau i ddatblygu eu hatebion eu hunain sy'n gynaliadwy ac a all sicrhau manteision ar unwaith ac yn y hirdymor.

Dyma'r drydedd fersiwn o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) ar gyfer Sir Fynwy, mae'n werth nodi bod y ddau CCS cyntaf wedi sefydlu llwyfan ar gyfer ceisio ymgorffori'r egwyddor o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r trydydd fersiwn hwn wedi ystyried y sylfaen dystiolaeth drylwyr iawn a ddarparwyd ar ffurf yr Asesiad Llesiant, yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac adroddiad "A yw Cymru'n Decach 2018" y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio llawer mwy ar fynd i'r

afael â materion y nodwyd eu bod yn bodoli yn Sir Fynwy ac sy'n cynnwys elfen sylweddol o weithio mewn partneriaeth i gyflawni'r canlyniadau hynny.

Ymglymiad a Chyfranogiad

Datblygwyd yr Asesiad Llesiant trwy ymgysylltu'n helaeth â'r gymuned gan ddefnyddio'r broses *Ein Sir Fynwy*, ynghyd â dadansoddiad manwl o ddata, ystadegau, ymchwil a pholisi. O ganlyniad, defnyddiwyd yr asesiad fel un o'r sylfeini tystiolaeth allweddol ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd hwn. Mae hyn ar y cyd â'r dystiolaeth a gyflwynwyd yng nghyhoeddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – "A yw Cymru'n Decach" 2018 a'r materion perthnasol a amlygir yn ein Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol.

Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol o'r wythnos yn dechrau'r 10^{fed} Ionawr i'r wythnos yn gorffen 16^{eg} Chwefror 2020. Cafodd hyn ei wneud mewn nifer o ffyrdd: drwy wefan y Cyngor, gyda dosbarthiad e-bost wedi'i dargedu i'r holl randdeiliaid a'i bostio ar gyfrifon Facebook a Twitter y Cyngor. Mae'r sefydliadau/grwpiau penodol yr ymgynghorwyd â nhw fel a ganlyn:

- Grŵp Cynhwysiant Sir Fynwy; Dau grŵp gorchwyl a gorffen a oedd yn cynnwys swyddogion o Gyngor Sir Fynwy;
- Fforwm Mynediad i Bawb;
- Fforwm 50+;
- Grŵp Nam ar y Golwg Sir Fynwy;
- SEWEG – Grŵp Cydraddoldeb De-ddwyrain Cymru;
- Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC);
- Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf (Craffu);

Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwymo i adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn. Dyma ein pwrpas clir ac unedig, sy'n rhedeg drwy bopeth a wnawn. Dim ond drwy werthfawrogi a gwneud y mwyaf o alluoedd a chyfraniadau pawb yn ein cymunedau gallwn gyflawni hyn, waeth beth ein hoed, rhyw, hil, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw un o'r nodweddion eraill sy'n ein gwneud pwy ydym.

Yr amcanion hyn a'r camau gweithredu a amlinellir ar y tudalennau canlynol yw'r pethau yr ydym wedi ymrwymo i'w cyflawni dros y pedair blynedd nesaf er mwyn sicrhau bod pawb yn ein sir yn gallu cyflawni eu potensial llawn.

- **Amcan 1:** Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant gan oresgyn rhwystrau i gyrhaeddiad a chyfle
- **Amcan 2:** Goresgyn anghydraddoldeb o ran mynediad at ffyniant economaidd
- **Amcan 3:** Creu cymunedau cydlynus
- **Amcan 4:** Darparu gwasanaethau sy'n hygyrch i'n cyhoedd ac sy'n cefnogi ein gweithlu.
- **Amcan 5:** Creu gweithlu amrywiol a chynhwysol
- **Amcan 6:** Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Mae pob un o'r adrannau isod yn rhestru peth o'r dystiolaeth sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r cynllun a dylai helpu i gynllunio pam y gwnaethom nodi'r amcanion penodol hyn. Mae hefyd yn nodi pa rai o'r grwpiau sy'n meddu ar nodweddion gwarchodedig a fydd yn elwa'n uniongyrchol o'r gweithgaredd.

Amcan 1: Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant gan oresgyn rhwystrau i gyrhaeddiad a chyfle.

Pam mae hyn yn bwysig / Tystiolaeth

- Mae un o bob pump o blant oed derbyn yn Sir Fynwy dros eu pwysau neu'n ordew ⁱ;
- Mae bwlch yn y cyrhaeddiad addysgol rhwng plant sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r plant eraillⁱⁱ;
- Mae 14.2% o blant yn Sir Fynwy yn byw mewn cartrefi incwm iselⁱⁱⁱ;
- Mae diffyg cyfleoedd i blant ag anabledau gan gynnwys darpariaeth chwarae, teithio i gael mynediad at addysg a chefnogaeth amlasiantaeth^{iv}.
- Mae yna faterion diffyg argaeledd llety a chefnogaeth i bobl ifanc ag anghenion cymhleth sy'n ddigartref

Y Nodweddion Gwarchoddedig

Oed	x	Crefydd neu gred	
Anabledd	x	Rhyw	
Ailbennu rhywedd		Cyfeiriadedd rhywiol	
Priodas neu bartneriaeth sifil		Y Gymraeg	
Beichiogrwydd neu famolaeth		Tlodi	x
Hil			

Gweithredoedd

Canlyniad	Cam Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
Caiff plant, pobl ifanc a theuluoedd eu cynorthwyo i wella eu lles	Datblygu llwybr ymyrraeth ac atal integredig gynnar i gefnogi plant a theuluoedd cyn gynted â phosibl a lleihau'r angen am ymyrraeth statudol i gadw pobl yn ddiogel yn enwedig y rhai sydd wedi dioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.	Wedi'i Gwblhau	Pennaeth Gwasanaethau Plant

Plant yn cyrraedd eu llawn botensial	Mapio'r ddarpariaeth bresennol er mwyn cynorthwyo disgyblion i gael prydau ysgol am ddim (PYaDd) drwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) a Sir Fynwy; nodi unrhyw fylchau a gweithio gyda'r GCA a phartneriaid ehangach i ddatblygu strategaeth gydlynus i godi cyrhaeddiad disgyblion PYaDd a chau'r bwlch rhwng disgyblion PYaDd a rhai nad ydynt yn derbyn PYaDd.	Mae hwn yn ddarn parhaus o waith a fydd yn parhau drwy gydol oes y cynllun hwn a thu hwnt – 2020-2024.	Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad
Caiff plant, pobl ifanc a theuluoedd eu cynorthwyo i wella eu lles	Datblygu partneriaeth 0-25 effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc;	Mae'r grŵp Cynnig Ieuenctid Integredig yn parhau i ddatblygu Rhwydwaith Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid ledled y sir,	Rheolwr Cymunedau a Phartneriaethau
Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu cynorthwyo i wella eu lles (canlyniad cau'r bwlch)	Datblygu'r Cynllun Ysgolion Bro	Yn mynd rhagddo yn ystod 2021 - 2022	Rheolwr Cymunedau a Phartneriaethau
Mae gan blant a phobl ifanc ddigon o gyfle i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgarwch corfforol	Cynnal asesiad blynyddol o ddigonolrwydd cyfleoedd Chwarae.	Mehafin 2022. Cyflawnir bob 3 blynedd	Cydlynnydd Seilwaith Cymunedol
Mae gan blant a phobl ifanc ddigon o gyfle i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgarwch corfforol	Cyflwyno'r rhaglen arweinyddiaeth Playmaker i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 i gefnogi hyder, cymhelliant, lles a hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol	Cyflwynir i bob carfan blwyddyn 5 yn flynyddol.	Rheolwr Cymorth Ieuenctid a Theithio Llesol

Mae gan blant a phobl ifanc ddigon o gyfle i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgarwch corfforol	Lleihau'r anghydraddoldeb mewn cyfraddau gweithgarwch corfforol rhwng gwrywod a benywod drwy'r rhaglenni Gall Ferched a Menywod yn Gryfach Gyda'i Gilydd	Cyflwynir hyn yn seiliedig ar fewnwelediad ac angen a nodir yn flynyddol	Rheolwr Cymorth Ieuencid a Theithio Llesol
Mae plant sydd ag anableddau yn gallu manteisio ar weithgareddau chwaraeon	Rhoi cynllun gweithredu ar waith i gyflawni Gwobr Aur Chwaraeon Anabledd	Cynllun Gweithredu ar waith. Cam 1 Gweledigaeth ar gyfer Datblygiad Insport Aur erbyn 31 ^{ain} Mawrth 2022	Swyddog Chwaraeon Anabledd
Mae gan bobl sydd yn ddigartref, neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd, gwell mynediad i lety a chymorth	Gweithredu'r Cynllun Pontio Digartrefedd o dan y Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol ehangach Adolygu gwasanaethau trwy'r Grant Cymorth Tai	Rhagfyr 2023 Hydref 2021	Rheolwr Tai a Chymunedau Rheolwr Cyllido Hyblyg

Amcan 2: Goresgyn anghydraddoldebau o ran mynediad at ffyniant economaidd

Pam mae hyn yn bwysig / Tystiolaeth

- Mae'r cyfraddau amddifadedd digidol yn Sir Fynwy yn 12.5% o'i gymharu â 4% ym mhrifddinas-ranbarth Caerdydd yn gyffredinol ^v
- Mae 1 o bob 4 oedolyn mewn tlodi yng Nghymru.
- 23% o blant yn byw mewn tlodi yn Sir Fynwy ar ôl costau tai. 14% yw'r ffigur cyn i gostau tai cael eu hystyried ^{vi}
- Ceir lefelau isel o fynediad i'r farchnad lafur i bobl ag anableddau. Mae 85% o bobl ag anableddau dysgu eisiau gweithio ond dim ond 4% sy'n gwneud ^{vii}
- Nid yw 34.6% o bobl anabl mewn cyflogaeth yng Nghymru^{viii}
- Mae yna ddiffyg argaeledd bysiau, tacsis a threnau (hygyrch ac fel arall). ^{ix}

- Mae stereoteipio rhyw mewn cyflogaeth yn dal i fod yn gyffredin ac yn arwain at fwllch cyflog rhwng y rhywiau ^x;
- Mae'r gyfradd uchaf o ddiweithdra yn yr ystod oed 16-24 oed ^{xi}

Nodweddion Gwarchoddedig

Oedran	x	Crefydd neu gred	
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd		Cyfeiriadedd rhywiol	
Priodas neu bartneriaeth sifil		Y Gymraeg	
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	x
Hil			

Gweithredoedd

Canlyniad	Cam Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
Mae gan fwy o bobl fynediad at fand eang cyflym	Cynyddu argaeledd a'r nifer sy'n manteisio ar fand eang ledled y Sir i fynd i'r afael ag allgau digidol.	Aeth Cynllun Gweithredu Seilwaith Digidol diwygiedig i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2020	Pennaeth Menter ac Ysgogi Cymunedol
Caiff pobl y cyfle i godi incwm eu haelwyd	Gweithio fel rhan o Brifddinas-ranbarth Caerdydd i ddenu swyddi sy'n uchel mewn sgiliau a chyflogau uchel	Cyfarfodydd diweddarau misol a gynhelir gyda'r Prifddinas-Ranbarth	Prif Swyddog, Menter
Caiff pobl y cyfle i godi incwm eu haelwyd	Darparu'r rhaglen Cymunedau am Waith i leihau nifer y bobl sydd mewn tlodi, neu sydd mewn perygl o hynny	Mawrth 2022	Rheolwr Menter Ieuenctid
Mae'r aelwyd yn gallu amlhau eu hincwm a lleihau eu gwariant	Parhau i ddatblygu cynllun trechu tlodi ar gyfer y Sir sy'n cyd-fynd â dyheadau'r	Cynllun gyda chynllun gweithredu wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet	Pennaeth Menter ac Ysgogi Cymunedol

	Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol	ym mis Mawrth 2021	
Gostyngiad yn nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth	Darparu cyfleoedd dysgu, hyfforddi a chyflogadwyedd i bobl ifanc 11 i 24 oed	Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio wedi'i ariannu tan fis Rhagfyr 2022	Rheolwr Menter Ieuenctid
Mwy o bobl ag anableddau a'r rhai sy'n gadael gofal mewn cyflogaeth	Darparu mynediad i'r farchnad lafur i bobl ag anableddau a'r rhai sy'n gadael gofal	Mae pobl sydd ag anableddau a'r rhai sy'n gadael gofal yn rhan o'r broses o gyfweliad gwarantedig (3 ^{ydd} Mawrth 2020)	Cydlynnydd Prentisiaid Graddedig ac Interniaid.
Goresgyn y rhwystrau i ddefnyddio trafndiaeth mewn ardaloedd gwledig	Gweithio gyda chwmnïau technoleg i ddatblygu atebion digidol ar gyfer trafndiaeth wledig yn Sir Fynwy gan ddefnyddio cyllid o'r Rhaglen Catalydd GovTech Swyddfa'r Cabinet.	Medi 2021	Pennaeth Polisi a Llywodraethu

Amcan 3: Creu cymunedau cydlynus

Pam mae hyn yn bwysig / Tystiolaeth

- Bu cynnydd mewn Troseddau Casineb Hiliol ^{xii}
- Mae cynnydd mewn bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth ac aflonyddu rhywiol mewn ysgolion ^{xiii}
- Gall unigrwydd ac arwahanrwydd gael effaith eithriadol o negyddol ar bobl.

Y Nodweddion Gwarchoddedig

Oed	x	Crefydd neu gred	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	x
Priodas neu bartneriaeth sifil	x	Y Gymraeg	x
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	x
Hil	x		

Gweithredoedd

Canlyniad	Cam Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
Gwell data ar gael am fwlio'n seiliedig ar gasineb	Gwella'r broses o gofnodi achosion o fwlio ar sail casineb a threialu ymyriadau priodol.	mis Medi 2022	Ysgolion Iach a'r Grŵp Cynhwysiant Bwlio
Cynyddu ymwybyddiaeth o effaith bwlio ar sail casineb ymysg plant ifanc yn yr ysgol	Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth yng nghlwstwr Cas-gwent i gychwyn. Yna trefnu sesiynau ar draws y sir.	Ebrill 2023	Fel yr uchod a Rheolwr Cymunedau Cysylltiedig / Swyddog Cydlyniant Cymunedol

Cynyddu ymwybyddiaeth o ganlyniadau casineb a gwahaniaethu mewn cymdeithas	Cynnal digwyddiad blynyddol Cofio'r Holocaust mewn Hybiau Cymunedol	Digwyddiad a drefnir yn flynyddol gan swyddogion yr Hyb mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust	Swyddogion Hybiau Cymunedol
Cynyddu ymwybyddiaeth o ganlyniadau casineb a gwahaniaethu mewn cymdeithas	Hybu Wythnos Gwrth-fwlio bob blwyddyn	Hyrwyddir yn flynyddol gan y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol	Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc
Lleihau effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd	Cyflawni'r canlyniadau o dan gynllun Sir Fynwy Gysylltiedig.	Darnau parhaus o waith a fydd yn cael ei wneud o dan y cynllun a fydd yn cyfrannu at leihau unigrwydd ac unigedd	Swyddogion Arweiniol Datblygu Cymunedau a Phartneriaethau
Goresgyn y rhwystrau i ddefnyddio trafniadaeth mewn ardaloedd gwledig	(GOVTECH) Mae dau gwmni yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Fynwy i ddarparu'r sylfeini ar gyfer gwell cysylltedd.	Medi 2021	Pennaeth Polisi a Llywodraethu

Amcan 4: Darparu gwasanaethau sy'n hygyrch i'n cyhoedd ac sy'n cefnogi ein gweithlu.

Pam mae hyn yn bwysig / Tystiolaeth

- Mae angen i gyfathrebu'r Cyngor fod yn fwy hygyrch ym mhob ffurf (ffontiau, iaith, lliwiau, cyferbyniadau, dyluniad, cyflwyniadau, fformatau amgen a.y.b.)
- Mae 26.8% o oedolion yng Nghymru yn nodi iechyd meddwl gwael^{xiv}.
- Mae pobl anabl teirgwaith yn fwy tebygol o roi gwybod am broblemau iechyd meddwl^{xv}.
- Mae un fenyw o bob pump yn dioddef o iselder ôl-enedigol^{xvi}.

Y Nodweddion Gwarchoddedig

Oed	x	Crefydd neu gred	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	x
Priodas neu bartneriaeth sifil	x	Y Gymraeg	x
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	x
Hil	x		

Gweithredoedd

Canlyniad	Cam Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
Sicrhau ein bod yn ystyried ein cynulleidfa amrywiol pan fyddwn yn cyfathrebu fel cyngor.	Glynu'n barhaus wrth yr Egwyddorion Cenedlaethol o Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Ymgysylltu parhaus gan ddefnyddio'r holl lwyfannau ymgysylltu sydd ar gael	Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Gwefan gwbl hygyrch sy'n darparu gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor	Adnewyddu gwefan y Cyngor i sicrhau ei fod yn bodloni'r canllawiau diweddaraf o ran hygyrchedd cynnwys gwefannau	WCAG 2.1 Ymestyn cyllid prosiect hygyrchedd am flwyddyn hyd at Ebrill 2022	Swyddog Marchnata Digidol
Mae mwy o wasanaethau ar gael yn	Parhau i sicrhau bod mwy o wasanaethau ar gael yn ddigidol drwy	Integreiddio â'r Sgyrsfot Monty a ffurflenni Fy	Rheolwr Swyddfa'r Rhaglen Ddigidol

ddigidol, sydd felly'n gwella hygyrchedd	ap y cyngor a'r Sgyrsfot	Sir Fynwy Mawrth 2022 Darparu opsiynau talu ar-lein ar gyfer ffurflenni Fy Sir Fynwy Mawrth 2022 Symud yr holl Ffurflenni Priffyrdd/Rheoli Llifogydd ar-lein Tachwedd 2021 Lansio sgil Alexa ar gyfer Gwybod eich diwrnod biniau/Biniau wedi'u Colli Awst 2021	
Mynediad wyneb-yn-wyneb newydd a gwell i wasanaethau'r Cyngor	Agor Hyb cymunedol newydd yn y Fenni gyda mynediad llawer gwell	Agorodd yr Hyb Newydd ar y 14 ^{eg} Medi 2020	Pennaeth Gwasanaethau Masnachol a Landlordiaid
Mae trigolion Sir Fynwy yn gallu manteisio ar gyngor annibynnol	Parhau i ariannu Cyngor ar Bopeth Sir Fynwy Cydweithio'n agos â'r Prosiect Cyngor ar Anabledd i gael mynediad at gyngor gan brosiect y Gronfa Loteri Fawr	Arian grant a ddarperir yn flynyddol Parhaus	Pennaeth Polisi a Llywodraethu. Swyddog Polisi Cydraddoldebau a'r Gymraeg
Gwasanaethau gwell ar gyfer delio â materion iechyd meddwl yn Sir Fynwy	Parhau i weithio gyda MIND ar gyflwyno'r Prosiect Iechyd Meddwl Gwledig. Gwella'r cymorth i iechyd meddwl y gweithlu	Mae'r BGC wedi cytuno i barhau i gefnogi gan fod hwn yn faes ffocws â blaenoriaeth Darparu'r canlynol sydd bellach ar waith: Iechyd	Rheolwr Cymunedau a Phartneriaethau Rheolwr Adnoddau Dynol

		Galwedigaethol, cwnsela, cefnogaeth cymheiriaid i gymheiriaid, y Grŵp Ewch Atynt, hyfforddi a mentora.	
Gwella'r gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd yn ystod 1001 diwrnod cyntaf bywyd eu plentyn	Datblygu cymorth sy'n hygyrch i bawb ar gyfer mamau a phlant ôl-enedigol yn y blynyddoedd cynnar iawn, gan gynnwys bwydo babanod ac ymyrraeth datblygiad plant.	Mawrth 2022	Rheolwr Dechrau'n Deg

Amcan 5: Creu gweithlu amrywiol a chynhwysol

Pam mae hyn yn bwysig / Tystiolaeth

- Mae diffyg amrywiaeth yn y gweithlu ^{xvii}
- Mae diffyg amrywiaeth o ran prentisiaethau ^{xviii}

Y Nodweddion Gwarchoddedig

Oed	x	Crefydd neu gred	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	x
Priodas neu bartneriaeth sifil	x	Y Gymraeg	x
Bechiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	x
Hil	x		

Gweithredoedd

Canlyniad	Cam Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
Mae'r rhai sy'n gweithio mewn sectorau allweddol megis gofal yn y cartref yn llai tebygol o brofi tlodi mewn gwaith	Parhau i dalu'r cyflog byw i holl weithwyr cyflogedig y Cyngor	Cymeradwyodd y Cyngor ei ymrwymiad i'r cyflog byw ar yr 11 ^{eg} Mawrth 2021	Prif Swyddog, Adnoddau / Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Diogelu
Mae mwy o bobl ag anableddau yn gwneud cais i weithio i'r Cyngor Sir	Cyflwyno'r cynllun gweithredu i ennill statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd	Cyflawnwyd Statws Hyderus o ran Anabledd ymrwymedig ym mis Mawrth 2021. Targed statws cyflogwr Hyderus o ran Anabledd Ebrill 2023	Swyddog Cydraddoldebau a'r Gymraeg a'r Grŵp Cynhwysiant Anabledd.

Mae pobl yn gallu cael gafael ar fwy o wasanaethau'n llawn gan ddefnyddio'r Gymraeg	Targedu cyfleoedd swyddi newydd yn rhagweithiol at siaradwyr Cymraeg	Proses barhaus	Swyddog Polisi Cydraddoldebau a'r Gymraeg
Gweithlu mwy amrywiol	Cyflwyno mwy o gyfleoedd graddedig, mewnol a chadetiadaeth i gynyddu amrywiaeth y gweithlu	Mae'r Strategaeth Prentisiaid Graddedig ac Interniaid yn cael ei gweithredu dros y cyfnod 2021 - 2024	Cydlynnydd Prentisiaid Graddedig ac Interniaid.

Amcan 6: Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau o fewn Cyngor Sir Fynwy

Pam mae hyn yn bwysig / Tystiolaeth

- Mae stereoteipio rhyw mewn cyflogaeth yn dal i fod yn gyffredin ac yn arwain at fwllch cyflog rhwng y rhywiau.
- Mae anghydraddoldeb yn bodoli rhwng lefelau cyflog menywod a dynion^{xix}
- Gall prinder trafniadaeth gyhoeddus a chost uchel rhedeg car fod yn rhwystr i fenywod i wneud y gorau o'u potensial i ennill cyflog

Y Nodweddion Gwarchoddedig

Oed		Crefydd neu gred	
Anabledd		Rhyw	x
Ailbennu rhywedd		Cyfeiriadedd rhywiol	
Priodas neu bartneriaeth sifil		Y Gymraeg	
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	x
Hil			

Gweithredoedd

Canlyniad	Cam Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
<p>Mae mwy o bobl yn gallu defnyddio trafndiaeth gyhoeddus sy'n ymateb i'r galw er mwyn cael mynediad at gyflogaeth</p> <p>Dull integredig o fynd i'r afael ag opsiynau trafndiaeth wledig yn y Sir, a'u gwella</p>	<p>Treialu'r defnydd o atebion a arweinir gan dechnoleg i wella mynediad i drafnidiaeth wledig drwy'r Catalydd GovTech sy'n cynyddu mynediad i gyfleoedd gwaith</p>	<p>Medi 2021</p>	<p>Pennaeth Polisi a Llywodraethu / Pennaeth Menter ac Ysgogi Cymunedol</p>
<p>Torri'r cylch Stereoteipio Rhyw sy'n bodoli mewn cymdeithas ac sy'n cael effaith negyddol ar gydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau.</p>	<p>Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau</p> <p>Edrych ar ffyrdd amgen o recriwtio staff i chwalo rhwystrau stereoteipio ar sail rhyw.</p>	<p>Cyhoeddwyd yn flynyddol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy'r adroddiad monitro blynyddol.</p> <p>Proses barhaus. Hyfforddiant rhagfarn anymwybodol i reolwyr Medi 2021 ymlaen</p>	<p>Rheolwr Adnoddau Dynol Swyddog Polisi Cydraddoldebau a'r Gymraeg</p> <p>Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu / Rheolwr Adnoddau Dynol.</p>
<p>Deall y gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau yn ein sefydliad</p>	<p>Casglu a dadansoddi data ar sail rhyw</p>	<p>Nod yr Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yw mynd i'r afael ag unrhyw feysydd sy'n peri pryder fel rhan o'r adroddiad monitro blynyddol.</p>	<p>Rheolwr Adnoddau Dynol / Rheolwr Datblygu Sefydliadol</p>

Cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal	Adolygu'r Strategaeth Pobl gan sicrhau y defnyddir data'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau i lywio'r strategaeth	mis Medi 2022	Rheolwr Datblygu Sefydliadol
Llai o wahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau yn y Sir	Mesurau a ychwanegir at y Cynllun Corfforaethol	Mae hwn yn fater parhaus, gan ddefnyddio ein statws fel y cyflogwr mwyaf yn y sir i ddylanwadu ar gyflogwyr eraill yn y maes bwlch cyflog rhwng y rhywiau	Rheolwr Adnoddau Dynol / Rheolwr Datblygu Sefydliadol

ⁱ Asesiad Llesiant Sir Fynwy, <https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/ein-sir-fynwy/>

ⁱⁱ A yw Cymru'n Decach 2018 + Asesiad Llesiant Sir Fynwy.

ⁱⁱⁱ Asesiad Llesiant Sir Fynwy, Ibid

^{iv} Asesiad Llesiant Sir Fynwy, Ibid

^v Asesiad Llesiant Sir Fynwy + asesiad o anghenion y boblogaeth.

^{vi} <http://www.endchildpoverty.org.uk/poverty-in-your-area-2019/>

^{vii} A yw Cymru'n Decach 2018, Ibid

^{viii} A yw Cymru'n Decach 2018, Ibid

^{ix} A yw Cymru'n Decach 2018, Ibid

^x A yw Cymru'n Decach 2018, Ibid

^{xi} A yw Cymru'n Decach 2018, Ibid

^{xii} A yw Cymru'n Decach 2018, Ibid

^{xiii} A yw Cymru'n Decach 2018, Ibid

^{xiv} A yw Cymru'n Decach 2018, Ibid

^{xv} A yw Cymru'n Decach 2018, Ibid

^{xvi} A yw Cymru'n Decach 2018, Ibid

^{xvii} A yw Cymru'n Decach 2018, Ibid

^{xviii} A yw Cymru'n Decach 2018, Ibid

^{xix} Enillion yn ôl lle gwaith – Dynion 563.6, Menywod 562. Arolwg blynyddol yr ONS o oriau ac enillion – Hydref 2019

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/placeofworkbylocalauthorityasetable7>